# Safonau'r Gymraeg Adroddiad Blynyddol 2024/25

Tribiwnlys Prisio Cymru

Carolyn Dawson (Prif Weithredwr)

## Tabl Cynnwys


| Adrannau | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Trefniadau Cydymffurfio | 4 |
| Asesiad Cydymffurfio | 4 |
| Adrodd am 2024-2025 | 5 |
| Mentrau Cymraeg Arfaethedig | 6 |

## Rhagair

Mae'n dda gennyf gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg cyntaf ers i mi gychwyn yn swydd Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y cyfnod o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 ac mae'n amlinellu galluoedd Cymraeg cyfredol y Tribiwnlys, ynghyd â'i nodau ar gyfer y dyfodol wrth iddo ddiwallu'r gofynion a osodir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016.

Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn gorff barnwrol annibynnol sy'n datrys anghydfodau yn ymwneud â'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig. Mae'n gweithredu trwy ddwy brif swyddogaeth — Barnwrol a Gweinyddol — ac mae'n cael ei gynorthwyo gan Gyngor Llywodraethu sy'n goruchwylio gweithrediadau'r Tribiwnlys ac yn sicrhau y cynhelir safonau uchel.

Dyma strwythur aelodaeth y Tribiwnlys:

- Llywydd y Tribiwnlys
- 3 x Cynrychiolydd Cenedlaethol
- 22 x Cadeirydd
- 37 x Aelod Lleyg

Cyfanswm aelodau TPC yw 63 ac o'r rhain, mae 2 gynrychiolydd cenedlaethol, 6 Chadeirydd ac 11 aelod yn siaradwyr Cymraeg, sy'n gyfwerth â 30% o'r aelodaeth.

Mae gweithwyr cyflogedig TPC yn cynnwys:

- Prif Weithredwr
- Rheolwr Gweithredol
- 3 x Uwch Glerc Tribiwnlys
- 8 x Clerc Tribiwnlys
- Swyddog Cyllid
- Swyddog cymorth TG
- 3 x Swyddog Gweinyddol

Cyfanswm o 18 aelod staff sydd gan TPC, o'r rhain mae 2 yn siaradwyr Cymraeg rhugl a 5 yn ddysgwyr Cymraeg. Golyga hyn fod gan 38% o weithlu TPC rywfaint o allu yn y Gymraeg.

Mae TPC yn ymrwymedig o hyd i ddarparu ei wasanaethau yn unol â Safonau'r Gymraeg ac i gryfhau ei allu i wneud hyn ymhellach yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Yn gywir,



Prif Weithredwr
Tribiwnlys Prisio Cymru

# Trefniadau Cydymffurfio

Paratowyd yr Adroddiad Blynyddol hwn ar ran Tribiwnlys Prisio Cymru ac fe'i cymeradwywyd yn ffurfiol gan ei Gyngor Llywodraethu.

Caiff ei gyhoeddi ar wefan y Tribiwnlys a chyflwynwyd copi i Gomisiynydd y Gymraeg.

# Asesiad Cydymffurfio

### Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) wedi'i ymrwymo i gwrdd â'i rwymedigaethau o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, mae'r Tribiwnlys wedi rhoi amrywiaeth o fesurau ar waith, gan gynnwys:

- Rhoi canllawiau clir i'r staff ar sut i ymateb i ohebiaeth, ateb galwadau ffôn, ac ymdrin ag ebyst yn unol â dewisiadau iaith.
- Gweithredu system ffôn ddigidol sy'n caniatáu i alwyr fynd am eu dewis iaith o'r cychwyn cyntaf, gan sicrhau mynediad syth at staff Cymraeg heb orfod cael eu hailgyfeirio.
- Cynnal gwefan gwbl ddwyieithog y mae modd ei chyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Cyhoeddi pob dogfennaeth swyddogol, gan gynnwys polisïau a phrotocolau, yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Darparu ffurflen safonol fel bod modd i ddefnyddwyr y Tribiwnlys ddangos eu dewis iaith ymlaen llaw cyn dod i wrandawiad.
- Cynnig porth cyflwyno apelau ar-lein sy'n cynnwys opsiwn dewis iaith i ddefnyddwyr.
- Mynd ati i hyrwyddo'r neges na fydd dewis defnyddio'r Gymraeg yn ystod y broses apelio yn esgor ar unrhyw oedi.
- Creu a rhannu cynnwys digidol sy'n annog ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg trwy gydol y broses apelio.

# Adrodd am 2024-2025

## Defnydd o Wasanaethau

| Gwasanaeth a Gyflenwyd: | Cymraeg | Saesneg |
|---|---|---|
| Galwadau Ffôn a dderbyniwyd | 91 | 1973 |
| Post yn dod i mewn | 29 | 889 |
| Apelau a Dderbyniwyd | 26 | 2126 |
| Penderfyniadau Prisio Treth Gyngor a Gyhoeddwyd | 8 | 208 |

Roedd mwyafrif yr apelau a gyflwynwyd yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd yn ymwneud â Phrisio'r Dreth Gyngor (PDG). O'r 41 gwrandawiad PDG a restrwyd, roedd 18 yn cynnwys apelau a wnaed yn Gymraeg.

Cyhoeddwyd cyfanswm o 208 penderfyniad yn Saesneg o'u cymharu ag 8 yn y Gymraeg.

Trefnwyd pob gwrandawiad yn ymwneud ag apelau Cymraeg fel bod modd eu cynnal yn gyfan gwbl yn Gymraeg, gyda Chadeiryddion, Aelodau a Chlercod Cymraeg. Fel canlyniad, nid oedd angen defnyddio gwasanaethau cyfieithu.

## Gwefan

Mae angen diweddaru gwefan TPC a chodwyd cwpwl o faterion yn ymwneud â chydymffurfiaeth mewn ymarfer monitro yn ddiweddar. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae TPC wrthi'n cywiro'r materion a nodwyd.

## Gwneud Polisi

Mae'r Tribiwnlys yn cynnal ei swyddogaethau yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol. Nid yw'n rhan o gylch gwaith TPC i ddatblygu ei bolisi ei hun.  Fodd bynnag, mae gosod ei bolisi gorchmynion a staff ei hun yn rhan o'i gylch gwaith, ac wrth ddrafftio'r rhain, mae'n ystyried effaith ei benderfyniad gweithredol ar gyflenwi ei wasanaethau yn Gymraeg.

## Cyfleoedd Hyfforddi

Ar hyn o bryd mae TPC wrthi'n cynnal arolwg staff i ddatblygu Proffil Cymraeg ar gyfer pob gweithiwr cyflogedig yn gyntaf. Caiff y fenter hon ei hymestyn i holl Gadeiryddion ac Aelodau TPC dros y misoedd nesaf i gipio llun cynhwysfawr o allu yn y Gymraeg ar draws y corff. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn helpu i adnabod anghenion hyfforddi ac yn sail i ddatblygu cyfleoedd hyfforddi wedi'u teilwra i bawb, beth bynnag eu gallu yn y Gymraeg ar hyn o bryd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae TPC wedi cynnal diwrnod hyfforddi Ymwybyddiaeth am y Gymraeg penodedig i'w aelodau, wedi'i gyflwyno gan Iaith. Cafwyd presenoldeb da yn y digwyddiad a'r cyfranogwyr wedi rhoi adborth cadarnhaol, sy'n adlewyrchu dymuniad cryf am barhau â'r datblygiad a'r gefnogaeth iaith. Mae TPC wedi'i ymrwymo i barhau i godi ymwybyddiaeth yn y maes hwn.

Ar ben hynny, mae wedi datblygu cyfres o ddeunyddiau hyfforddi fideo yn Gymraeg a Saesneg sydd ar gael yn ardal aelodau ei wefan.

# Mentrau Cymraeg Arfaethedig

## Edrych i'r Dyfodol

Mae TPC wedi'i ymrwymo i'w rwymedigaethau o dan Safonau'r Gymraeg ac yn gwella ansawdd ei wasanaethau yn barhaus. Yn y flwyddyn adrodd i ddod, mae TPC yn anelu at adeiladu ar ei gynnydd trwy'r gweithredu arfaethedig canlynol:

| | **Gweithredu** |
|---|---|
| 1 | Diweddaru gwefan TPC i sicrhau cydymffurfiaeth lawn a pharhaus â Safonau'r Gymraeg. |
| 2 | Sefydlu Proffil Cymraeg cynhwysfawr ar gyfer staff ac aelodau'r Tribiwnlys. |
| 3 | Mynd ati i recriwtio mwy o staff ac aelodau Cymraeg i'r Tribiwnlys. |
| 4 | Parhau i roi hyfforddiant Cymraeg i'r staff a'r aelodau, wedi'i deilwra ar gyfer lefelau amrywiol o hyfedredd. |
| 5 | Creu a rhannu cynnwys fideo newydd trwy'r cyfryngau cymdeithasol a gwefan TPC i hybu'r defnydd o'r Gymraeg trwy'r broses gyfan gyda'r Tribiwnlys. |
| 6 | Datblygu cynnwys cyfryngau wedi'i dargedu at y cyfryngau cymdeithasol a gwefan TPC i gefnogi recriwtio aelodau Cymraeg. |
| 7 | Cydweithio ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio i ddatblygu rhaglen hyfforddi ar y cyd i'r staff ar draws y ddau gorff er mwyn helpu codi hyder wrth ymdrin ag Apelau Cymraeg heb fod angen gwasanaethau cyfieithu. |
| 8 | Mynd ati i hybu TPC fel corff sy'n hyrwyddo ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg trwy fynychu digwyddiadau fel yr Eisteddfod a Sioe Frenhinol Cymru. |
| 9 | Parhau i ddatblygu perthynas waith gadarnhaol gyda swyddogion cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg i sicrhau cyfathrebu agored a thryloyw. |

Y gobaith yw y bydd y gweithredu yma yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus TPC i gefnogi'r iaith Gymraeg, a sicrhau gwasanaeth cynhwysol a hygyrch i'w holl ddefnyddwyr.